WNO

WELSH
NATIONAL
**OPERA**
CENEDLAETHOL
CYMRU

# Adolygiad Blynyddol 2014/2015

Amser i edrych yn ôl.
Amser i edrych ymlaen.

# Amser am opera gwych

Mae WNO yn perfformio rhaglen uchelgeisiol o gynyrchiadau newydd poblogaidd ac adfywiadau clasurol. Gyda'n tymhorau thema eofn, rydym yn arddangos perthnasedd opera i'n bywydau a'i statws ymhlith gweddill y celfyddydau.

Trwy ein ôl troed teithio, prisio hygyrch ac agwedd groesawgar, sicrhawn y mwynheir y rhaglen hon gan bob oed a chefndir ledled Cymru a Lloegr. Cyfunwn enw da rhyngwladol a phresenoldeb gyda pherthynas agos gyda'r cymunedau a wasanaethwn. Gallwn berfformio ar y llwyfannau mwyaf mawreddog tra hefyd yn cyffwrdd bywydau i ffwrdd o'r theatr trwy waith cymunedol a digidol.

Bob blwyddyn, defnyddiwn bob ennyd sydd gennym i ymdrechu ymhellach yn artistig, cyrraedd mwy o bobl a chael mwy o effaith ddwys ar gynulleidfaoedd, cyfranogwyr a'r sector yn gyffredinol. Nid oedd 2014/2015 yn eithriad.

# Opera gwych **i bawb**

Bu i dri thymor thema gynnig cyfleoedd i'n cynulleidfaoedd ystyried ystod eang o faterion a syniadau wrth ymchwilio gweithiau pwysig ond eto a oedd prin wedi'u perfformio ar y cyd â chlasuron poblogaidd. Bu i Ryddid a Marwolaeth! (*William Tell, Moses in Egypt, Carmen*) edrych ar gwestiynau ynghylch rhyddid gwleidyddol a phersonol. Bu i Hudo (*Chorus!, The Magic Flute, Hansel & Gretel*) ddathlu grym dychmygol hud a lledrith. Canolbwyntiodd Diniweidrwydd Ofnadwy (*Pelléas and Mélisande, Peter Pan*) ar gymeriadau anwybodus sy'n ddiarwybod yn creu hafog i eraill. Dros y tri tymor hwn cyflwynasant bum cynhyrchiad newydd a thri adfywiad clasurol.

Ychydig dros 20 mlynedd wedi i gynhyrchiad Peter Stein o *Pelléas and Mélisande* ddod yn garreg filltir i'r WNO, roedd ein llwyfaniad newydd o'r campwaith hwn yn eiliad ddiffiniol yn hanes y Cwmni. Canmolodd adolygiadau ac adborth cynulleidfaoedd ddehongliad y Cyfarwyddwr Cerdd, Lothar Koenigs, o'r sgôr, y cast eithriadol a chynhyrchiad gweledigaethol gan David Pountney.



'Mae'r fuddugoliaeth gerddorol gyfan, fodd bynnag, yn perthyn i Lothar Koenigs a'i gerddorfa hyfryd...Dyma aseiniad olaf ond un Koenigs fel cyfarwyddwr cerdd WNO, un o'r rhai mwyaf nodedig yn hanes y cwmni.'

**Hugh Canning, The Sunday Times am *Pelléas and Mélisande***

---

'*Pelléas and Mélisande* oedd uchafbwynt y flwyddyn i mi. Roeddwn bob amser yn mwynhau'r darn. Fodd bynnag, roedd gweithio arno yn y 1990au bron yn ormod i mi, felly roedd yn braf dychwelyd at y gerddoriaeth gyda chynhyrchiad heb fod yn naturiolaidd (ar set *Lulu* a ailddyfeisiwyd, gyda dŵr) heb beth a ddisgrifiwyd unwaith fel 'deng tunnell o olygfa metel trwm". Roedd cast hyfryd yn ogystal a oedd yn anhygoel gweithio â hwy – perfformiad trawiadol go iawn i'r Cwmni.'

**Julia Carson Sims, Rheolwr Llwyfan**

**Cynyrchiadau newydd**
*William Tell, Moses in Egypt, Chorus!, Peter Pan* a *Pelléas and Mélisande*

**Adfywiadau**
*Carmen, The Magic Flute* a *Hansel & Gretel*

Jurgita Adamonyté (Mélisande) a Christopher Purves (Golaud) yn *Pelléas and Mélisande*. Llun gan Clive Barda



Canmolwyd ein cynhyrchiad newydd mawr o *William Tell* a *Moses in Egypt* gan Rossini, fel rhan o'n tymor Rhyddid neu Farwolaeth! gan adolygwyr. Bu i'w llwyddiant gryfhau enw da cynyddol y WNO fel un o ddehonglwyr blaenllaw y byd o repertoire bel canto.

'Mae fersiwn newydd Opera Cenedlaethol Cymru yn arwydd o fwriad artistig dan arweiniad David Pountney, tra mae llwyddiant y cynhyrchiad yn fesur o allu cerddorol a dramatig y cwmni.'

**Andrew Clements, The Guardian am *William Tell***

---

'I mi, uchafbwyntiau'r flwyddyn oedd ein cynyrchiadau o *Pelléas et Mélisande* a *William Tell*. Yn y ddau waith cyfatebwyd cynhyrchiad cyffrous gan y safonau cerddorol uchaf, dan arweiniad Lothar Koenigs a Carlo Rizzi. Yr uniad hwnnw o gerddoriaeth a drama gwych yw beth yw WNO i mi.'

**David Pountney, Cyfarwyddwr Artistig**

---

'Hoffwn ddweud cymaint a fwynheais *Moses in Egypt* yn y Mayflower yn Southampton. Roedd popeth amdano yn wych a gadewais y theatr wedi'm gwefreiddio. Llongyfarchwch bawb a gymerodd ran i roi noson mor hyfryd i mi.'


**Susanne Fletcher, Aelod o'r Gynulleidfa**

**55** o raddau pedair neu bum seren mewn adolygiadau print neu ar-lein

**1139** o grybwylliadau yn y wasg

**100** o berfformiadau prif raddfa mewn naw tref a dinas ledled Cymru a Lloegr

Leah-Marian Jones (Hedwige), David Kempster (William Tell) a Fflur Wyn (Jemmy) yn *William Tell*. Llun gan Richard Hubert Smith



Cyflwynodd ein perfformiad cyntaf yn y DU o *Peter Pan* gan Richard Ayres a Lavinia Greenlaw genhedlaeth newydd gyfan i hud a lledrith opera. Bu i'r cynhyrchiad swyno y mynychwyr opera tymhorol a phlant yn profi opera am y tro cyntaf. Croesawyd 729 o blant diolch i'n docyn £1 plant.

'...Cynhyrchiad hynod ddyfeisgar Keith Warner... Mae meistrolaeth crefft y llwyfan yn cyfateb i'r sgôr... Hedfanodd y ddwy awr fel *Peter Pan* ei hun'

**Barry Millington, The Evening Standard am *Peter Pan***

---

'Diwrnod hyfryd yn gwylio cynhyrchiad @WNOtweet o *Peter Pan*...Rydym yn lwcus iawn o gael y fath gwmni proffesiynol yng Nghymru!'

**Bénjamin Mowbráy, Aelod o'r Gynulleidfa**

Ashley Holland (Captain Hook) a Marie Arnet (Wendy) yn *Peter Pan*.
Llun gan Clive Barda

Does efallai ddim gwell arwydd o'n cryfder artistig presennol na'r gydnabyddiaeth a dderbyniodd Corws WNO pan enillont Wobr Opera Cenedlaethol am y Corws Gorau, 2015. Coronodd y wobr hon flwyddyn ryfeddol o safonau cerddorol cynyddol ar gyfer Corws a Cherddorfa WNO.

'...fel sy'n digwydd yn WNO, roedd yn gorws aruthrol, a hyfforddir ar hyn o bryd gan Alexander Martin, a gododd ias arnaf...teimlwn fel mynd ar fy ngliniau mewn rhyfeddod.'

**Rupert Christiansen, The Telegraph am *William Tell***

---

'Fy uchafbwynt o'm blwyddyn gyntaf fel Corws Feistr? Mae llawer i ddewis ohonynt! Y corws agoriadol 'Tywyllwch i oleuni' rhyfeddol *Moses in Egypt*, a diweddglo dramatig y Drydedd Act yn *William Tell*. Arwain y gân agoriadol rhyfelgar o *Chorus!* – Epilog *War and Peace* gan Prokofiev. Gweithio gyda Carlo Rizzi a David Pountney ar y ddau Rossini. Cyfarwyddyd ysbrydoledig a dynamig Keith Warner o *Peter Pan*. Teithio Cymru a chyflwyno araith fer yn llwyddiannus (ar fy nghof) yn Gymraeg i agor ein cyngerdd ym Mangor (gan achosi mwy o nerfau na'r cyngerdd ei hun!).'

**Alexander Martin, Corws Feistr**

'Fy uchafbwynt o 2014/2015 fyddai cynrychioli WNO mewn dwy seremoni wobrwyo – yn gyntaf Gwobrau Theatr Cymru a gynhaliwyd yn Theatr y Sherman, Caerdydd lle enillodd y Corws yr Ensemble Gorau yn benodol am ein gwaith ar *Moses und Aron* yr haf blaenorol; yna am gael gwobr Corws Gorau 2015 gyda chydweithwyr yn y Gwobrau Opera Rhyngwladol. Cynhaliwyd y gwobrau mawreddog hyn yn The Savoy yn Llundain. Roedd gennym gystadleuaeth dda yn ein herbyn gan gynnwys Corws Opera y Met, Wiener Staatsoper ac ein cyfeillion yn Opera Cenedlaethol Lloegr (ENO).'

**Michael Clifton-Thompson, Tenor, Corws WNO**



**Enillydd**
Corws Gorau, Gwobrau Opera Rhyngwladol, 2015

Corws WNO yn *Chorus!* Llun gan Robert Workman

# Mynd ymhellach gydag **opera wych**



Cydnabyddir cyfraniad Opera Cenedlaethol Cymru i fywyd diwylliannol Cymru a Lloegr gartref gan y llywodraeth ac yn rhyngwladol gan rai o ymarferwyr pwysicaf opera.

'Noson ardderchog gyda @WNOtweet gyda chynhyrchiad o *Peter Pan*. Mae Opera Cenedlaethol Cymru yn gwneud cyfraniad unigryw i gelfyddyd y DU.'

**Stephen Crabbe, Ysgrifennydd Gwladol Cymru**

---

'Parha WNO i fod yn drysor celfyddydol i Gymru, gan dyfu o nerth i nerth bob blwyddyn. Dena'r cwmni ganmoliaeth hael am ei gynyrchiadau o'r radd flaenaf. Cynrychiola WNO y gorau o Gymru yn mynd allan i'r byd a dangos beth all ein cenedl wneud ar raddfa fyd eang.'

**Ken Skates, Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth**

---

'Mae gan WNO ysbryd hynod unigryw. Nid yw ond yn perfformio opera – mae'n mwynhau ailddyfeisio ym mhob sioe. Sicrha repertoire syfrdanol, cynyrchiadau gyda safbwynt, cast arbenigol a'r safonau cerddorol uchaf ei fod yn gwasanaethu ac yn arwain y cyhoedd gyda hunanfeddiant anferthol. Yn ogystal, nid yw cael y corws sy'n canu ac actio orau yn y byd yn gwneud drwg chwaith.'

**Keith Warner, Cyfarwyddwr *Peter Pan***

Miklós Sebestyén (Moses) yn *Moses in Egypt*. Llun gan Richard Hubert Smith

# Ein hamser **tu hwnt i'r prif lwyfan**



Mae ein gweithgarwch cyngerdd yn caniatáu ein dau ensemble enwog i fod yn ganolbwynt. O neuaddau cyngerdd gorau Prydain i theatrau mewn cymunedau lleol, mae'r Corws a'r Gerddorfa yn dod â pherfformiadau o'r radd flaenaf i bawb.

Parhaodd Cerddorfa WNO i berfformio ar y cyd â cherddorfeydd gorau'r byd fel rhan o Gyfres Cyngerdd Rhyngwladol yn Neuadd Dewi Sant, Caerdydd. Gwelodd 2014/2015 hefyd y Gerddorfa yn derbyn eu gwahoddiad i berfformio yng Ngwyl Siopa Dubai, ynghyd â pherfformio fel rhan o Ganwr y Byd Caerdydd y BBC. Nododd y flwyddyn hefyd breswyliad olaf y Gerddorfa yn Torbay lle maent wedi rhoi perfformiadau gwych i gyrraedd cynulleidfaoedd sydd fel arfer yn amddifad o gyngherddau cerddorfaol. Bu i Gorws WNO deithio rhaglen o ffefrynnau opera a chlasuron corawl i theatrau ledled Cymru.

**17,210** cyfanswm nifer o bobl a fynychodd gyngerdd WNO

**18** cyngerdd cerddorfaol mewn pum lleoliad o Gaerdydd i Fangor i Dubai

**4** cyngerdd corws yng Nghasnewydd, Abertawe, Aberhonddu a Bangor

**3** cyflwynasant ein trydydd preswyliad ac yr un olaf gennym yn Torbay mewn partneriaeth â Chyngor Torbay

Cerddorfa WNO. Llun gan Brian Tarr

# Amser am **fwy**

Rydym bob amser wedi credu bod opera i bawb. Nid siarad gwag yw hyn. Dyma pwy ydym ni, mae'n rhan naturiol o'n DNA.

Mae ein ôl troed teithio yn rhoi opera wych o fewn cyrraedd yn rhwydd ledled Cymru a Gorllewin Lloegr. Ymhellach, mae ein tocynnau fforddiadwy yn sicrhau nad yw pris fyth yn rhwystr i berfformiad gwych. Yn 2014 croesawon filoedd i opera am y tro cyntaf trwy ei gwneud yn hygyrch trwy ein cyrraedd ledled y DU, ein prisiau a'n croeso cynnes.

Mae ein tocynnau yn £5 i rai o dan 30 a thocynnau £1 *Peter Pan* i blant wedi agor y drysau i opera i filoedd o bobl ifainc a, gobeithio, wedi dechrau hoffter a fydd yn parhau am oes. Mae ein defnydd o gyfryngau digidol wedi'n cynorthwyo i fynd ag opera y tu hwnt i'r llwyfan a'i gosod yn uniongyrchol o flaen pobl sydd erioed wedi cael y cyfle i ddod i gysylltiad ag opera o'r blaen.

Credwn hefyd y gall opera gyrraedd a chyffwrdd pobl o bob cefndir a safle cymdeithasol. O'n llawer o brosiectau cymunedol yn 2014/2015, mae Co-Opera yn sefyll allan. Rhoddodd ollyngfa greadigol hanfodol i bobl ifainc ym Mhenfro a Southampton, a ffyrdd i gael eu galluogi a'u hysbrydoli.

# Opera i **fwy** o bobl, mewn **mwy** o leoedd, yn **fwy** dwfn

Bu i dros 100,000 o bobl fynychu perfformiad WNO ar raddfa fawr yn ystod tymor 2014/2015 ledled ein naw theatr. Dangosodd yr adborth a dderbyniasom gan bobl yn mynychu opera am y tro cyntaf pa mor bwysig yw gallu rhoi opera wych ar garreg eu drws.

'Diolch am wneud y noson honno yn un o'r cynyrchiadau llwyfan difyrraf yr wyf erioed wedi'u gweld. Bydd fy mhrofiad cyntaf o opera yn un na anghofiaf fyth. Roedd yn ardderchog! Roedd y gerddoriaeth a'r canu ar lefel eithriadol sydd ond i'w ddisgwyl gan WNO. Teimlais yr emosiynau a theimlo hefyd bod popeth wedi dod at ei gilydd yn dda.'

**Naomi Donnegan, Mynychwr am y Tro Cyntaf**

'Roedd *Carmen* yn gynhyrchiad godidog a cawsom noson gofiadwy iawn. Rydym yn ystyried ein hunain yn lwcus iawn o gael mynediad at opera o'r ansawdd uchel hwn o fewn cyrraedd hawdd.'

**Malcolm Yorston, Aelod o'r Gynulleidfa**



**122,691** y cyfanswm nifer o bobl a berfformiom iddynt

**14,000** y ffigwr amcangyfrifedig o fynychwyr WNO am y tro cyntaf

Llun gan Matt Stuart

# **Mwy** o docynnau fforddiadwy

Mae ein prisiau fforddiadwy a chynlluniau datblygu cynulleidfa yn sicrhau nad rhywbeth moethus yn unig yw opera. Gall hefyd fod yn rhan hanfodol o amser hamdden ein cynulleidfa. Mae ein prisiau isaf yn aml yn rhatach na thaith i'r sinema a chymharant yn ffafriol gyda digwyddiadau chwaraeon a pherfformiadau byw a gweithgareddau hamdden eraill.

'Bu i ni roi tocynnau i'n merch a'n hwyres (9 oed). Ffoniodd ein hwyres ni y bore yma, yn LLAWN cyffro. Defnyddiodd ansoddeiriau fel "hollol ANHYGOEL!, GWYCH, trît GO IAWN". Mozart yw ei hoff gyfansoddwr nawr! Felly diolch i WNO am agor llygaid plentyn i ryfeddod cerddoriaeth/canu penigamp/setiau llwyfan a gwisgoedd gwych. Gwyddwn y bydd y profiad hwn yn un ffurfiannol iddi! Bu i'n merch ei fwynhau hefyd!'

**Roger a Viv Luxton, Aelodau o'r Gynulleidfa**

'Diolch Mawr i WNO am wneud y fath brofiad arbennig yn bosibl ac am ei wneud mor fforddiadwy a hygyrch.'

**Barry Page, Aelod o'r Gynulleidfa**

---

'Ni allaf fforddio prisiau Llundain a gallwn ond bod yn ddiolchgar y gallwn fynd i rhywle lleol o ansawdd uchel a allaf ei fforddio.'

**Bridget Eastman, Aelod o'r Gynulleidfa**




£28.56 cyfartaledd pris tocyn a delir

3,600 o ddeiliaid tocynnau £5 i rai o dan 30 oed

729 o blant wedi'u cyflwyno i opera trwy docynnau plant £1 *Peter Pan*

Allan Clayton (Tamino) yn *The Magic Flute*. Llun gan Robert Workman

# **Mwy** digidol

Ni all ddim gymharu a'r peth go iawn. Mae'r profiad o rannu opera byw gydag aelodau eraill o'r gynulleidfa yn unigryw. Mae ein prosiectau digidol yn trawsnewid elfennau hanfodol opera, gan ddefnyddio cerddoriaeth a'r llais i ddweud straeon, cysylltu mwy o bobl gydag opera a dangos ei berthnasedd a grym.

Gan ddefnyddio elfennau sylfaenol opera, geiriau a cherddoriaeth, ac ein thema Rhyddid neu Farwolaeth!, creodd y prosiect *Occupation* gyfres o ganeuon protest newydd wedi'u hysgrifennu gan gymysgedd cyfoethog o artistiaid yn cynnwys Cerys Matthews, Judith Weir a High Contrast, mewn ymateb i newyddion yr wythnos. Rhyddhawyd pob cân brotest fel fideo cerddoriaeth a cysylltodd â chynulleidfaoedd a oedd yn anghyfarwydd ag opera, gan ddangos bod opera yn parhau i fod yn fynegiant perthnasol o'r materion sy'n ein heffeithio i gyd.

Dengys ein cyfranogiad yn y wefan ffrydio darlledu opera am ddim The Opera Platform ein hymroddiad i ddefnyddio cyfryngau digidol i gysylltu â chynulleidfaoedd rhyngwladol newydd.

'Mae'r Opera Platform yn rhoi byd o opera - am ddim, yn fyw ac ar alw. Arweinir ei Dymor Opera Ewropeaidd gan yr operâu hyd llawn a gyfrennir atynt gan 15 o gwmniau partner o 12 gwlad, wedi eu ffrydio'n fyw ac ar gael am chwe mis. Dewiswyd Opera Cenedlaethol Cymru am ei operâu arloesol newydd sydd yn creu llwybr ar gyfer dyfodol opera ac mae cyfranogiad y cwmni yn dangos ei ymrwymiad at ddefnyddio cyfryngau digidol i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd.'

**Nicholas Payne, Cyfarwyddwr Opera Europa**

'Cymerais ran yn y prosiect *Occupation* gan yr apeliodd ataf i wneud darn o gerddoriaeth gyda neges wleidyddol gan yr wyf fel arfer yn gwneud cerddoriaeth electronig, nas arweinir gan eiriau. Meddyliais ei bod yn beth clodwiw i WNO ddod â'r prosiect hwn at ei gilydd. Gwnaeth yr amrywiaeth o artistiaid y bu iddynt ofyn i gymryd rhan roi cymysgedd ddiddorol o leisiau yn y darnau terfynol gan obeithio eu bod wedi ehangu disgwyliadau pobl am beth yw pwrpas WNO.'

**Lincoln Barrett, High Contrast**



*Occupation – five songs that shook the world.* Llun gan Katherine Pither

27,586
cyfanswm cynulleidfa ddigidol (cymdeithasol)

119,590
o ddefnyddwyr we unigryw

171,186
cyfanswm nifer o ymgysylltiadau cyfryngau cymdeithasol

5950
yn hoffi ar Facebook

164,679
wedi gwylio ar YouTube

590
yn hoffi ar Instagram

1595
o argraffiadau ar Twitter

16
dilynwr newydd dyddiol ar Twitter

# **Mwy** o gymunedau wedi'u hysbrydoli

Rydym yn credu gall opera dod a phobl at ei gilydd i ddathlu clefydau o ansawdd uchel yng nghalon y gymuned.

Eleni bu i ni gyflwyno *Gair ar Gnawd*, oratorio sylweddol yn Gymraeg gan Menna Elfyn a Pwyll ap Siôn a berfformiwyd yn Llanelli gan aelodau o'r gymuned leol ynghyd â chwaraewyr a chantorion WNO. Fe wnaeth *Gair a Gnawd* cyrraedd cynulleidfa eang drwy ei darlleniad ar S4C.

Roedd y prosiect Co-Opera ym Mhenfro wedi rhoi siawns i bobl ifanc o gefindiroedd eang creu perfformiad yn seiliedig ar *The Magic Flute* a chan dynnu ar eu profiad eu hunain.

'Rwyf ond yn falch o gael y cyfle i gyfrannu i gynhyrchiad WNO a dysgu ychydig am beth sydd yn cyfrannu ato. Diolch i bawb a wnaeth i ni deimlo fel rhan o'r tîm. Roedd yn brofiad anhygoel a mwynheais bob munud.'

**Cath Williams, cyfranogwr i *Gair ar Gnawd***

**16,835** cyfanswm nifer o gyfranogwyr y prosiect

**169** cyfanswm nifer o sesiynau cyfrannu yn y DU a thramor

**4,172** cyfanswm nifer o aelodau o'r gynulleidfa a oedd yn Ieuenctid neu o'r Gymuned

**28,000** o wylwyr gwelodd *Gair ar Gnawd* ar S4C

**17** cyfanswm nifer o leoliadau lle berfformiwyd Ieuenctid a Chymunedol

**21** cyfanswm nifer o berfformiadau Ieuenctid a Chymunedol



Dyfed Wyn Evans (Anwar) gyda'r Is-Gorws a Sian Meinir (Awen) yn *Gair ar Gnawd*. Llun gan Jeni Clegg



# **Mwy** o brosiectau ysgolion

Gall llawer o bobl dyfu i fyny yn teimlo nad yw opera yn rhywbeth ar eu cyfer nhw a nad yw'n berthnasol i'w bywydau. Rydym yn credu trwy weithio yn ysgolion, defnyddio'r pŵer o ddychymyg clefydau, rydym yn gallu dangos pa mor ddymunol gall opera creadigol fod. Gobeithiwn y dechreua ein prosiectau ysgolion berthynas rhwng y plant ac opera a fydd yn para am byth, er eu bod yn addysgol hanfodol ar draws y cwricwlwm.

Rhoddodd prosiect *My Perfect World* gyfle i blant berfformio opera fechan ar set *Carmen* mewn theatrau ar ein taith o flaen eu cyfoedion, gan ddatblygu eu hyder a hunan-barch. Bu i ni wahodd plant ysgol i fynychu ein hymarferion gwisgoedd. Roedd ein perfformiadau o *Peter Pan* yn arbennig o boblogaidd.

'Nid yw llawer o'n plant yn mwynhau canu gan eu bod arnynt ofn. Felly roedd yn hyfryd gweld fy holl ddosbarth yn cyfranogi gyda brwdfrydedd a mwynhad.'

**Athro sydd yn cyfranogi ym mhrosiect *My Perfect World***

---

'Diolch yn fawr i chi am adael i ni fynd i Ganolfan Mileniwm i wylio *Peter Pan*. Roedd yn dda iawn ac roedd yn dda i blant bach 4 a 5 oed. Roedd y gerddoriaeth yn dda iawn. Roedd yn swnio yn anhygoel. Roedd y gerddorfa yn anhygoel. Fy hoff gymeriad oedd Wendy oherwydd roedd yn garedig a hardd. Hwn yw'r tro cyntaf i mi weld perfformiad yn y theatr anhygoel hon. Diolch yn fawr iawn.'

**Jasmine, Blwyddyn 3, Ysgol Cymraeg Nant Caerau**

'Diolch yn fawr iawn am adael i ni weld yr opera yng Nghanolfan Mileniwm. Mwynheais hi'n fawr. Roedd y gerddorfa'n rymus. Roedd y tu mewn yn agoriad llygad. Fy hoff gymeriad oedd Wendy Darling. Roedd yr opera yn hynod o dda a'r set yn hyfryd. Diolch am y gwahoddiad. Gobeithiaf eich gweld yn fuan.'

**Seren, Blwyddyn 3, Ysgol Cymraeg Nant Caerau**

Llun gan Jeni Clegg

# **Mwy** o fywydau yn newid

Mae ein prosiectau Ieuenctid a Chymuned yn dangos nad profiad goddefol yn unig yw opera gwych, mae hefyd yn rhywbeth y gallwch fod yn rhan hanfodol ohono. Gall cyfranogwyr ennill hyder, diffinio eu hunaniaeth ymhellach, ymdeimlo ag eraill a dod o hyd i sianel greadigol tra'n dysgu sgiliau newydd. Ond nid yn unig y cyfranogwyr sy'n cael eu newid trwy'r prosiectau hyn, mae'r opera hefyd yn newid. Mae cyfraniad bywiog y cyfranogwyr yn helpu opera i ddatblygu a chysylltu'n ddwfn gyda gwahanol cymunedau a phrofiadau.

Rhedodd ein prosiect Co-Opera ym Mhenfro a Southampton yn ystod ein tymor Cyfareddol. Aeth y prosiect ati i sefydlu perthynas creadigol rhwng grwpiau o bobl ifanc ac artistiaid proffesiynol. roedd y prosiect yn rhoi siawns i'r cyfranogwyr creu perfformiadau byr sydd wedi ei selio ar opera o'r tymor. Dysgodd y cyfranogwyr ifanc am yr opera ac ennill sgiliau newydd a thechnegau creadigol.

'Dysgais fod opera yn llawer tebycach i theatr gerddorol arferol nag yr oeddwn wedi ei feddwl a bod cynhesu'r llais a chanu o'r abdomen yn bwysig iawn.'

**Cyfranogwr Co-Opera, Southampton**

---

'Roeddwn yn mwynhau gwybod ein bod wedi ysgrifennu'r darn ein hunain a'n bod wedi dysgu'r holl ganeuon ar gyfer yr arddangosfa mewn wythnos.'

**Cyfranogwr Co-Opera, Southampton**

---

'Rwy'n meddwl mae opera yn dda iawn, gyda rhai caneuon emosiynol iawn.'

**Cyfranogwr Co-Opera, Sir Benfro**



165 y nifer o bobl a gymerodd ran yn Co-Opera (73 yn Sir Benfro, 92 yn Southampton)

Llun gan Jeni Clegg

# Y dyfodol

Mae gan opera ddyfodol disglair. Rydym yn gweithio'n galed bob dydd i sicrhau y bydd opera yn gryf a bywiog yn artistig ac yn weinyddol. Trwy ein cynllun Artist Cyswllt a rhaglenni datblygu proffesiynol eraill a'n perthynas gyda chonservatoires ac ysgolion cerddoriaeth rydym yn meithrin y dalent ifanc gorau.

# Cantorion y **dyfodol**



Mae ein rhaglen Artistiaid Cyswllt hir dymor wedi sicrhau fod y dalent ifanc disgleiriaf yn cael lle ac amser i ddatblygu. Mae Artistiaid Cyswllt yn cael budd o gyfleoedd datblygu gyrfa gyda rhannau mewn operâu blaenllaw. Eleni perfformiodd Aidan Smith ein Hartist Cyswllt yn *William Tell*, *Carmen* a *Peter Pan*.

'Mae bod yn Artist Cyswllt wedi rhoi profiad i mi o weithio ar lefel ryngwladol gyda chydweithwyr rhagorol. Rwyf wedi ehangu fy repertoire ac wedi cael y gefnogaeth y mae pob canwr yn edrych amdano mewn cwmni. Rwyf wedi cael nifer o uchafbwyntiau, mae rhaid i mi ddweud mai *Peter Pan* oedd y cynhyrchiad y mwynheais fwyaf. Roedd y cast a'r tîm cynhyrchu yn berffaith ac roedd y rôl yn wych!'

**Aidan Smith, Artist Cyswllt WNO**

Parhawyd Opera Ieuenctid WNO i fod mewn galw a blwyddyn ddiwethaf cafwyd ei gordanysgrifio. Rydym yn hyfforddi pobl ifanc rhwng yr oedran 14 i 25, sy'n cyfarfod gyda WNO pob wythnos i ddysgu a datblygu ei chanu a thalent theatraidd. Mae ganddynt hwy'r siawns i ddysgu repertoire heriol, gweithio'n greadigol, mynychu preswyliadau ac ysgolion haf ac yn perfformio mewn amrywiad o leoliadau.

Alessandra Volpe (Carmen), Aidan Smith (Zuniga) a Peter Wedd (Don José) yn *Carmen*. Llun gan Jeni Clegg

# Myfyrwyr y **dyfodol**

Mae aelodau o'n Corws a Cherddorfa yn rhannu eu harbenigedd a sgiliau i ysbrydoli myfyrwyr cerddoriaeth gydag amrywiaeth o brosiectau ochr yn ochr â rhaglenni eraill.

Mi wnaeth ein partneriaeth hirsefydlog â Choleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru barhau i gynnig y profiad gwerthfawr i fyfyrwyr berfformio ochr yn ochr ag aelodau'r Gerddorfa. Llwyddodd ein gwaith gyda myfyrwyr i ymestyn ledled Lloegr gyda phrosiectau atodol yn Birmingham Conservatoire a Torbay.

'Roedd yn brofiad pleserus iawn i gael eistedd wrth ymyl offerynwyr proffesiynol a chael dysgu gan bob un ohonynt. Un o'r pethau gorau yw cael cyfarfod yr offerynwyr ar lefel bersonol a chael gwybod sut yn union maen nhw'n chware a dysgu popeth ganddynt o fewn y sesiynau. Rydych yn dysgu cymaint mwy o fewn yr adran.'

**Dafydd Thomas, Trombôn, CBCDC prosiect Ochr yn Ochr**

'Y peth mwyaf pleserus am y prosiect Ochr yn Ochr yw'r wefr mae'r myfyrwyr yn teimlo wrth iddynt sylweddoli pa mor hyblyg a dan reolaeth sydd yn rhaid i'r gerddoriaeth fod i gyfeilio i'r cantorion mewn opera. Yn sydyn maen nhw'n sylweddoli pa mor gymhleth ydyw a pha mor fawr yw'r jig-so. Mae'r prosiectau Ochr yn Ochr yn bwysig iawn i'r myfyrwyr. Mae cael cyfle i weithio gyda cherddorion proffesiynol, eu hathrawon yn aml, yn rhoi gwir deimlad o bwrpas iddynt. Mae'n mynd â nhw allan o'u man cyfforddus ac yn newid y ffordd maen nhw'n trin eu hastudiaethau. Teimla'r Cantorion WNO ymdeimlad o falchder eu bod yn helpu myfyrwyr ac yn datblygu eu sgiliau. Rydym yn cymryd llawer o bethau yn ganiataol, ac mae'n dangos i ni beth sydd yn rhaid i ni ei wneud i gyflawni ein safon wrth chware ac yn ein hatgoffa am waith tîm.'

**Christopher Vale, Baswn, Cerddorfa WNO**



Llun gan Nia John

# Gweithiwr proffesiynol y **dyfodol**

Trwy nifer o gynlluniau datblygiad proffesiynol rydym yn rhoi cyfle i gantorion ifanc a phobl greadigol ddatblygu dan arweiniad gweithiwyr proffesiynol WNO. Mae ein rhaglenni interniaeth yn rhoi cyfle i weinyddwr a thechnegwyr ifanc weithio yn y celfyddydau.

'Rwyf wedi bod yn gweithio gyda WNO am dros flwyddyn bellach, ac wedi dysgu cymaint am sut mae cwmni opera proffesiynol yn gweithio a'r hyn sy'n ddisgwyliedig gan aelod o staff cerddoriaeth. Rwyf yn mwynhau pob agwedd o'r gwaith, ond y prif beth sy'n tanio fy angerdd yw'r bobl a'r safon o gerddoriaeth sy'n cael ei wneud yma. Mae WNO yn llwyfan rhagorol ar gyfer symud ymlaen i swyddi eraill o fewn y diwydiant ac er nad wyf mewn unrhyw frys i adael, mae'n bendant wedi rhoi cymaint o brofiad i mi ac wedi agor llawer o ddrysau ac rwyf yn ddiolchgar iawn am hynny. Uchafbwynt fy amser gyda WNO hyd yn hyn yn bendant oedd y cynhyrchiad newydd gyda Carlo Rizzi a hefyd cael bod yn rhan o fy nhîm gwych o staff cerddoriaeth. Rydym fel teulu ac yn cael amser da efo'n gilydd, sy'n hanfodol wrth greu cerddoriaeth o safon byd.'

**David Doidge, Repetiteur dan Hyfforddiant Genesis**

'Gweithiais gyda WNO am ddwy flynedd fel Cyfarwyddwr Cynorthwyol Genesis, yn ystod y cyfnod hwnnw teimlais fy mod yn cael fy meithrin a fy herio. Roedd yna nifer o uchafbwyntiau yn ystod fy nwy flynedd gyda WNO – gweithiais gydag artistiaid rhagorol a dysgais lawer am opera. I mi fel cyfarwyddwr yr uchafbwynt mwyaf oedd cyfarwyddo fy sioe fy hun: *CREW*. Rwyf nawr yn gweithio fel cyfarwyddwr llawrydd. Enillais Gymrodoriaeth Independent Opera Director 2016 ac rwyf yn cyfarwyddo *Kommilitonen!* i Opera Ieuenctid WNO yn haf 2016.'

**Polly Graham**

---

'Treuliais 18 mis gwerthfawr yn gweithio gyda WNO, dechreuais gyda interniaeth tri mis yn Marchnata cyn symud ymlaen i'r tîm Rheoli Cerddorfa mewn amrywiol swyddi dros dro. Fel intern sylweddolais mai un o'r agweddau gorau o weithio i gwmni mor fawr â WNO yw eich bod yn cael cyfle i weld cymaint o wahanol agweddau o'r diwydiant. Nid yw'n cliché i ddweud ei fod wedi bod yn agoriad llygaid i mi. Yr hyn oeddwn yn ei werthfawrogi am fy amser gyda WNO oedd ei fod wedi rhoi'r sgiliau, y profiad a'r hunanhyder rwyf ei angen i symud ymlaen yn y diwydiant.'

**Daniel Aguirre Evans**



Llun gan Matt Stuart

# Amser gyda'n gilydd

Ni allwn wneud hyn ein hunain ac ni all y sector Celfyddydol oroesi heb gydweithio a chael cydweithrediad agos. Rydym yn gryfach gyda'n gilydd. Dyna pam rydym yn parhau i weithio mewn partneriaeth â sefydliadau celfyddydol eraill i gynhyrchu gwaith ac i ddatblygu cynulleidfaoedd a sgiliau. Rydym eisiau sicrhau bod yr adnoddau sydd gennym yn cael eu defnyddio er budd sefydliadau eraill ar draws y lleoliadau sy'n rhan o'n teithiau.

Mae ein hagwedd fentrus tuag at gyd-gynhyrchu gyda chwmnïau eraill yn ein galluogi i lwyfannu gwaith na fyddai'n bosib petai'r ddau gwmni yn ceisio ei wneud yn annibynnol.

# **Cyd-weithio** i greu cynyrchiadau rhagorol

Mae Opera Cenedlaethol Cymru yn rym mawr yn opera yn rhyngwladol nid yn unig oherwydd ein henw da ond hefyd o ganlyniad i nifer o gysylltiadau agos a llwyddiannus gyda sefydliadau celfyddydol o bedwar ban byd.

Yn ystod 2014/2015 fe gynhyrchiwyd ar y cyd gyda chwmnïau dros y byd i greu opera.

**Teatr Wielki Opera Narodowa, Poland William Tell**
**Grand Théâtre de Genève, Switzerland William Tell**
**Houston Grand Opera, USA William Tell a Moses in Egypt**
**Scottish Opera Carmen**
**Lyric Opera of Chicago, USA Hansel & Gretel**
**Komische Oper Berlin, Germany Peter Pan**

Mae Gwasanaethau Theatraidd Caerdydd (CTS), is-gwmni llawn WNO, yn un o'r cwmnïau adeiladu golygfeydd sydd â'r galw mwyaf amdano yn y Deyrnas Unedig.

Yn 2014/2015 gweithiodd CTS i 36 o wahanol sefydliadau yn ychwanegol i WNO, gan gynnwys:
Opera North, Opera Cenedlaethol Lloegr, Glyndebourne Festival Opera, Royal Opera House, National Theatre, Birmingham Opera Company, Box Clever Theatre, Cameron Mackintosh, Leicester Theatre Trust Ltd, Hijinx Theatre, Regent's Park Theatre Ltd, Royal Court Theatre, Theatr Cerdd Cymru, Theatr Genedlaethol Cymru Wales, Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, Canolfan Mileniwm Cymru a BBC Worldwide Ltd.



**5** y nifer o gyd-gynhyrchiadau a gafodd eu cyflwyno gennym

**4** Gwnaeth pedwar cwmni opera brynu ein cynyrchiadau gan gynnwys *Die Meistersinger von Nürnberg* i Opera Cenedlaethol Lloegr. Enillon nhw Wobr Olivier amdano yng nghategori'r Cynhyrchiad Opera Newydd Gorau.

Llun gan Matt Stuart

# **Cyd-weithio** i wella enw da

Mae ein perthynas agos manteisiol i bawb gyda chwmnïau celfyddydol eraill yn ein helpu i wella ein proffil ac ymestyn y tu hwnt i gynulleidfaoedd opera presennol.

Mae bod yn rhan o ymgyrch Get Creative y BBC wedi helpu i hwyluso dadl fywiog am werth y celfyddydau.

Mae Opera Cenedlaethol Cymru'n chwarae rhan allweddol yn natblygiad y sector celfyddydol yng Nghymru. Gwelir ein hymrwymiad i'r byd celfyddydol cyfan drwy dwf prosiectau fel Côr Teulu All Aloud yn Wrecsam, a ddechreuodd fel rhan o'n cynllun preswyl tair blynedd yn y dref ac sydd bellach yn ffynnu fel côr cymunedol annibynnol. Gwelir hyn hefyd yn Artworks Cymru, sefydliad datblygu proffesiynol ar gyfer ymarferwyr sy'n gweithio mewn celf gyfranogol. Rydym yn cefnogi cwmniau eraill hefyd ar lefel ymarferol drwy ddarparu lle i ymarfer ac adnoddau eraill.

'Rhoddodd Get Creative y cyfle i ni gyd-weithio gyda sefydliadau celfyddydol eraill ar draws Cymru a helpu i arwain y ddadl am werth diwylliant yn arbennig mewn amser o galedi ariannol. Canolbwyntiodd y drafodaeth, a gafodd ei gynnal ar draws y cyfryngau cymdeithasol, ar werth cynhenid diwylliant yn erbyn y manteision cymdeithasol ac addysgol. Roedd yn gyfle gwych i feddwl am natur creadigrwydd ochr yn ochr â'i werth economaidd.'

**Emma Flatley, Cyfarwyddwr Ymgysylltu a Phartneriaethau**



Llun gan Matt Stuart

Trwy ein holl weithgareddau, ar ac oddi ar y llwyfan, rydym yn ymrwymedig i sicrhau gwerth eithriadol am arian ac i sicrhau fod pob punt o arian cyhoeddus rydym yn ei gael yn mynd mor bell â phosib. Yn ychwanegol at ariannu, rydym yn ymroddedig i greu incwm o werthu tocynnau, codi arian a ffynonellau eraill.

# Gwerth am arian

'Rwyf wedi mwynhau opera erioed a thros y blynyddoedd rwyf wedi gweld ystod eang o berfformiadau, yn cynnwys rhai gan y WNO ers yr 1970au. Yn dilyn wythnos hudolus o opera gan y cwmni yn 1995 dechreuais roi fy nghefnogaeth bersonol tuag at ei berfformiadau, gan ddechrau gyda *The Doctor of Myddfai* gan Peter Maxwell Davies. Yn fwy na dim rwy'n gwerthfawrogi'r WNO am ei raglennu cyffrous gyda chomisiynau newydd law yn llaw ag operâu adnabyddus. Mae'r WNO yn cymryd ei amser i ymchwilio thema neu syniad yn drylwyr, neu ddiddordebau cymdeithasol neu ddiwylliannol y cyfnod, mewn sawl cynhyrchiad. I mi mae'r ymgysylltiad ysgogol hwn wedi cadarnhau fy nghefnogaeth hirdymor o'r Cwmni.'

**David Speller**

'Nid cwmni sy'n bodloni ar ei lwyddiant yw'r WNO. Mae ein hanes o uchelgais ac arloesedd artistig, a'n gofal tuag at ein partneriaid, wedi ein galluogi i ddangos gwir dwf yn ein gwaith o godi arian, yn ogystal â chwilio am farchnadoedd rhyngwladol newydd. Dyma ffordd arall lle gallwn ddangos ein gwerthfawrogiad cyson a gawn bob blwyddyn gan ein hariannwyr cyhoeddus, Arts Council of England a Chyngor Celfyddydau Cymru.'

**Geraint Talfan Davies, Cadeirydd**

Llun gan Matt Stuart

'Mae Opera Cenedlaethol Cymru yn rhoi cyfle i Genesis Foundation i gefnogi talent ifanc addawol sy'n gallu gweithio yng nghalon un o gwmnïau opera blaenllaw'r Deyrnas Unedig ac i ennill profiad gwerthfawr o weithio i gwmni proffesiynol iawn, o dan fentoriaeth ei gyfarwyddwr artistig David Pountney.'


**Harriet Capaldi, Cyfarwyddwr Gyfarwyddwr, Genesis Foundation**

'Mae ABP yn falch i noddi'r sefydliad safon byd hwn mewn ffordd sy'n rhoi budd i gymunedau lleol. Mae ein perthynas gyda WNO hefyd yn fuddiol gan ei fod yn rhoi cyfle i'n staff a'n cwsmeriaid fwynhau opera mewn lleoliad sydd â chysylltiadau hanesyddol â'n porthladdoedd.'

**Matthew Kennerley, Cyfarwyddwr Rhanbarthol, ABP De Cymru**


## Incwm

- Grantiau cyhoeddus gan ACE a ACW
- Incwm o werthu tocynnau
- Codi arian
- Gwasanaethau Theatraidd Caerdydd - creu setiau i drydydd partïon
- Incwm arall sy'n cael ei ennill




## Gwariant

- Costau cefnogi
- Costau codi arian
- Opera
- Costau Marchnata
- Costau Ieuenctid a Cymunedol
- Gwasanaethau Theatraidd Caerdydd - setiau i drydydd partïon



# Rhagor i edrych ymlaen ato

**Mae uchafbwyntiau tymor 2015/2016 yn cynnwys:**

Pum cynhyrchiad hollol newydd, gan gynnwys *I puritani* gan Bellini.

Ein trioleg Figaro forever – *The Barber of Seville*, *The Marriage of Figaro* a'r première byd o *Figaro Gets a Divorce*.

Byddwn yn dathlu ein pen-blwydd yn 70 oed gydag ail première byd, addasiad newydd o *In Parenthesis*, cerdd Rhyfel Byd Cyntaf David Jones.

Byddwn yn lansio ein Cyngherddau i Deuluoedd yn Neuadd Dewi Sant, Caerdydd, gyda'r bwriad o gyflwyno opera a cherddoriaeth glasurol i blant.



**Cadw mewn cysylltiad â WNO** **wno.org.uk**

Supported by The National Lottery® through the Arts Council of Wales
Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol trwy Gyngor Celfyddydau Cymru
Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales
Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government
LOTTERY FUNDED
Supported using public funding by ARTS COUNCIL ENGLAND

Elusen Gofrestredig Rhif 221538

Rosa Feola (Elvira) a Barry Banks (Arturo Talbo) yn *I puritani*.
Llun gan Bill Cooper